COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-YBONT AR OGWR CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 7 HYDREF 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| H T Bennett | C Davies | S Easterbrook |

Presennol yn Rhithwir

| | |
|---|---|
| RM James | P W Jenkins |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Gyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogi |

Datganiadau o Fuddiannau
Dim

Yn absenoldeb y Cadeirydd, enwebodd yr Is-bwyllgor y Cynghorydd Bennett yn Gadeirydd i'r cyfarfod. Cynigiwyd yr enwebiad hwn a chafodd ei eilio a dangosodd yr holl aelodau eu bod yn cytuno.

## 69. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 07/01/25 a Chofnodion Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) dyddiedig 21/01/2025, 29/04/2025 fel cofnod gwir a chywir. Roedd Cofnodion Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 dyddiedig 30/04/25 i gael eu hailystyried. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/10/2025 |

## 70. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/10/2025 |

## 71. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra’n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf. Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, y dylid ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyrid ym mhob amgylchiad yn ymwneud â'r eitem, fod budd y cyhoedd drwy gynnal yr eithriad yn bwysicach na budd y cyhoedd drwy ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeisydd a grybwyllir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/10/2025 |

## 72. Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 07/01/25 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/10/2025 |

## 73. Gwrandawiad Disgyblu - Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid yw'r penderfyniad ynghylch yr eitem hon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd gan fod yr adroddiad wedi ei eithrio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 07/10/2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55.